Rhif: WG37262

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# A458 Canol Tref y Trallwng - System Unffordd

Adroddiad ar Ganlyniad yr Ymgynghoriad

Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd
This document is also available in English

© Crown Copyright ISBN digidol 978-1-78964-877-5

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................ 1
2. Ymgynghoriad Cyhoeddus ........................................ 2
3. Dadansoddiad o’r Ymatebion ........................................ 3
4. Y camau nesaf ........................................ 9
Atodiad A: Y ddogfen ymgynghori cyhoeddus a’r holiadur ........................................ 10

## 1. Cyflwyniad

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, wrthi'n archwilio adolygiadau i system gylchu unffordd yr A458 yng nghanol tref y Trallwng er mwyn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan fasnachwyr a phreswylwyr ers sefydlu'r system gylchu yn 2011.

Mae Cyngor Sir Powys ar ran Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i adolygiadau posibl o'r cynllun parcio a'r lled ar wahanol rannau o Broad Street fel rhan o adolygiad parcio a gynhaliwyd yn 2017. Roedd y gwaith hwn yn ychwanegu at waith blaenorol a wnaed gan Gyngor Sir Powys, gan gynnwys adolygiad o'r system unffordd ac adolygiad o ddefnydd cerddwyr o'r groesfan heb reolaeth goleuadau ar Broad Street.

Argymhellodd yr adroddiad ar yr adolygiad parcio y dylai Broad Street cael ei lleihau i lôn sengl drwy ddefnyddio marciau ffordd i ddarparu diwyg culach ar y gerbytffordd o'r gyffordd â goleuadau wrth y 'Cross' hyd at neuadd y dref. Yn ogystal â hyn, byddai'r rhan o'r ffordd lle nad oes lle ar hyn o bryd i barcio ar y stryd, ger neuadd y dref, yn cael ei chulhau'n ffisegol i 4.5m drwy ledu'r troetffyrdd/ardaloedd palmantog cyfagos, gan ganiatáu lle i sefydlu cyfleuster croesi dan reolaeth sebra i ddisodli'r groesfan bresennol heb reolaeth goleuadau.

Fel rhan o'r asesiad o'r system unffordd, cafwyd cynnig y gallai pen dwyreiniol Brook Street ddychwelyd i lôn ddwyffordd. I wneud hyn, byddai angen diddymu'r troad i'r dde sydd ar hyn o bryd o Union Street i Church Street, fel bod y teithwyr sy'n mynd tuag at y gyffordd â'r goleuadau, sef y Cross, yn gorfod mynd ar hyd y system unffordd heibio Church Bank a Mill Lane.

Dechreuodd yr ymgynghoriad 12-wythnos ffurfiol ar 10 Medi wrth i wybodaeth gael ei rhoi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac yng Nghanolfan Croeso'r Trallwng a Swyddfeydd Cyngor y Dref. Dosbarthwyd dogfen ymgynghori cyhoeddus a holiadur hefyd i breswylwyr y Trallwng a rhanddeiliaid allweddol eraill gyda dydd Llun 3 Rhagfyr fel y dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad galw heibio hefyd yn Neuadd Tref y Trallwng ar 14 Medi a 30 Hydref 2018.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r preswylwyr am eu sylwadau ar yr adolygiadau i'r rhwydwaith presennol a oedd yn cael eu hystyried ac am unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliannau. Roedd y cynigion yn cynnwys:-

- Y posibilrwydd o gulhau Broad Street i un lôn o gyffordd 'The Cross' i'r 'High Street' y tu allan i neuadd y dref.
- Gosod croesfan sebra ar Broad Street ger neuadd y dref.
- Gwelliannau fydd yn gwneud Brook Street yn ffordd ddwy lôn rhwng Church Street a Jehu Road, a fyddai'n newid arwyddion y A458 ger cylchfan Sarn-y-Bryn Caled a chyffordd y Flash.


Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad i gael sylwadau'r cyhoedd a chasglu adborth ar y cynigion a gyflwynwyd ac y mae'r manylion amdanynt wedi eu nodi uchod ac i gael unrhyw awgrymiadau pellach y gellid eu rhoi ar waith.

Postiwyd tair mil pum cant o ddogfennau ymgynghori a oedd yn ymgorffori holiaduron i breswylwyr yn ardal y Trallwng.

### Plan o'r lleoliad




© Crown Copyright a hawliau'r gronfa ddata 2018 Yr Arolwg Ordnans 100025371

## 3. Dadansoddiad o'r Ymatebion

Cafwyd dau gant a thrigain o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dangosir dadansoddiad o'r modd y cyflwynwyd yr ymatebion yn y tabl isod.

| Dull Ymateb | Nifer yr Ymatebion | Y Ganran o'r 260 o Ymatebion |
|---|---|---|
| Cyflwynwyd ar-lein | 98 | 38 |
| Cyflwynwyd drwy'r post neu traddodwyd â llaw | 157 | 60 |
| Cyflwynwyd drwy e-bost | 5 | 2 |
| **Cyfanswm** | **260** | **100** |

Cafwyd deunaw a phedwar ugain o ymatebion drwy'r porthol ar-lein a chyflwynwyd pump drwy e-bost.

Roedd cant a hanner a saith o ymatebion yn rhai ysgrifenedig a gafodd eu dychwelwyd drwy'r post i Lywodraeth Cymru neu eu traddodi i swyddfeydd Cyngor y Dref, y Ganolfan Croeso a sesiynau galw heibio.

Roedd pum cwestiwn yn yr holiadur a'r ddau gyntaf yn rhai i ganfod sut yr oedd y system unffordd bresennol yn cael ei defnyddio. Roedd y trydydd yn gofyn am sylwadau ar ddiogelwch y system bresennol a'r pedwerydd yn gofyn am sylwadau ar y gwelliannau arfaethedig. Gofynnodd y pumed am unrhyw awgrymiadau neu sylwadau pellach.

Mae cwestiynau 1 i 5 wedi eu rhestru isod, gyda'r ymatebion ar ffurf tabl, ac mae crynodeb wedi ei ddarparu:

### C1. Sut fyddwch chi'n defnyddio'r system unffordd?

(dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi)

| Diddordeb | Nifer yr Ymatebion | Y Ganran o'r 281 o Ymatebion |
|---|---|---|
| Preswylydd Lleol | 247 | 88 |
| Perchennog Busnes Lleol | 18 | 6 |
| Arall | 16 | 6 |
| **Cyfanswm** | **281** | **100** |

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, sef dau gant a phump a thrigain ohonynt (94%), yn breswylwyr lleol a/neu yn berchenogion busnes. Roedd gan un ar bymtheg (6%) o'r ymatebwyr ddiddordeb 'Arall' yn yr ardal.

Roedd gan nifer o ymatebwyr ddefnyddiau lluosog ar gyfer y system unffordd a dyna pam y mae ffigur y cyfanswm yn uwch na chyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd defnyddiau eraill ar y system unffordd yn cynnwys gweithio a siopa yn y Trallwng, teithio i'r gwaith a bod yn yrrwr tacsi.

**C2. Pa ddull o deithio fyddwch chi'n ei ddefnyddio pan fyddwch yn teithio ar y system unffordd?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi)

| Dull Teithio | Nifer yr Ymatebion | Y Ganran o'r 513 o Ymatebion |
|---|---|---|
| Cerdded | 231 | 45 |
| Beic | 28 | 5 |
| Beic Modur | 10 | 2 |
| Gyrrwr | 236 | 46 |
| Arall | 8 | 2 |
| **Cyfanswm** | **513** | **100** |

Mae'r mwyafrif o ymatebwyr, sef 91% ohonynt, yn defnyddio'r system unffordd fel gyrwyr a/neu gerddwyr. Mae nifer arwyddocaol yn defnyddio aml-ddulliau teithio a dyna pam y mae ffigur y cyfanswm yn uwch na chyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nodwyd mai teithio mewn bws ac mewn cadair olwyn oedd y dulliau teithio eraill.

**C3. Ydych chi'n teimlo bod yna broblemau diogelwch gyda'r system unffordd?**

| Elfen | Nifer yr Ymatebion | | Y Ganran o'r Ymatebion | |
|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Ydw | Nac ydw |
| Y System Unffordd bresennol ar Brook Street | 132 | 116 | 53 | 47 |
| Y Ddwy Lôn Draffig bresennol ar Broad Street | 184 | 66 | 74 | 26 |
| Y Cyfleusterau Croesi presennol ar Broad Street | 198 | 53 | 79 | 21 |

Teimlodd y mwyafrif o ymatebwyr fod problemau diogelwch ynglŷn â phob un o'r tair elfen bresennol y cynigir eu diwygio.

Mae 74% a 79% yn meddwl bod problemau diogelwch ar y ddwy lôn draffig a'r cyfleusterau croesi presennol, yn ôl eu trefn, ar Broad Street. Roedd y canlyniadau ar gyfer y system unffordd bresennol ar Broad Street wedi ymrannu'n eithaf cyfartal er bod y mwyafrif yn meddwl bod problemau diogelwch.

O'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod problemau diogelwch gyda'r system bresennol datganwyd y pryderon a ganlyn.

| Y Categorïau Ymateb | Nifer yr ymatebwyr a soniodd am y themâu hyn |
|---|---|
| Broad Street - Problemau gyda pharcio, cyflenwadau, cerddwyr yn croesi, agor drysau i'r ffordd, ei bod yn rhy gul i ddau gar deithio arni | 53 |
| Traffig yn goryrru | 47 |
| Anawsterau wrth groesi - Cyffredinol | 28 |
| Anawsterau wrth groesi Broad Street | 20 |
| Dylid cyflwyno terfyn cyflymder 20mya | 13 |
| Diffyg gorfodi cyfyngiadau parcio | 6 |
| Amseriadau'r cyfnodau coch ar oleuadau croesfannau a reolir yn rhy fyr ar gyfer croesi | 6 |

| | |
|---|---|
| Anhawster wrth dynnu allan o Seven Stars Road i Brook Street oherwydd ceir sydd wedi eu parcio, etc | 5 |
| Anawsterau wrth groesi Brook Street | 4 |
| Anawsterau wrth groesi cyffordd Brook Street/Jehu Road | 4 |
| Gyrru gwael, mynd y ffordd anghywir ar strydoedd unffordd, etc | 4 |
| Cyfnodau rhy hir o aros hyd nes i'r goleuadau newid i goch ar groesfannau a reolir | 4 |
| Angen mwy o groesfannau i gerddwyr | 3 |
| Anawsterau wrth groesi High Street | 2 |
| Anawsterau wrth groesi Church Street/Mill Lane | 2 |
| Union Street a'r Cross yn rhy fyr i draffig newid lonydd | 2 |
| Anawsterau wrth newid lonydd yn Church Street | 2 |
| Angen arwyddion ychwanegol ar gyfer croesfannau i gerddwyr | 2 |
| Mae'r gyffordd ger adeilad Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn beryglus | 1 |
| Mae cyffordd Church Road yn beryglus | 1 |
| Anawsterau wrth groesi ger adeilad Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr | 1 |
| Anawsterau wrth groesi Church Street | 1 |
| Anawsterau gyrru wrth gyffordd Union Street/Mill Lane | 1 |
| Problemau parcio ar ystadau tai | 1 |
| Diffyg lle i barcio y tu allan i 12 High Street | 1 |
| Cyffordd High Street/Jehu Road yn beryglus ar hyn o bryd | 1 |
| Problemau ynglŷn â cherddwyr yn Union Street/Church Bank | 1 |
| Diffyg lle i barcio gerllaw'r siop sglodion a Sainsbury's | 1 |
| Anawsterau wrth groesi Red Bank/Church Bank | 1 |

**C4. Os gwnaethoch chi ateb 'ydw' i gwestiwn 3 - sut yn eich barn chi fydd y cynnig yn effeithio ar y pryderon yma? Dewiswch un rhif ar gyfer pob rhan o'r cynnig isod**

| Yr Elfen a Gynigir | Effaith y Cynnig | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 – Gwella diogelwch – dileu'r pryderon diogelwch | | 2 – Ychydig bach o welliant i'r diogelwch – dileu'r pryderon diogelwch yn rhannol | | 3 – Dim newid – mae'r pryderon diogelwch yr un fath | | 4 – Ychydig yn llai diogel – pryderon diogelwch ychydig yn waeth | | 5 – Llai diogel – pryderon diogelwch yn waeth, neu bryderon ychwanegol | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| System Ddwy Lôn arfaethedig ar Brook Street | 108 | 50 | 34 | 16 | 33 | 15 | 17 | 8 | 24 | 11 |
| Culhau arfaethedig i greu Lôn Sengl ar Broad Street | 117 | 56 | 46 | 22 | 16 | 7 | 13 | 6 | 18 | 9 |
| Croesfan Sebra arfaethedig ger Neuadd y Dref | 139 | 66 | 46 | 22 | 16 | 7 | 2 | 1 | 9 | 4 |

Ym mhob achos mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn meddwl y byddai'r cynigion a gyflwynwyd yn gwella diogelwch.

Roedd 66% yn meddwl y byddai'r system ddwyffordd arfaethedig ar Brook Street yn gwella diogelwch.
Roedd 19% yn meddwl y byddai'n llai diogel.

Roedd 78% yn meddwl y byddai'r culhau arfaethedig i greu lôn sengl ar Broad Street yn gwella diogelwch.
Roedd 15% yn meddwl y byddai'n llai diogel.
Roedd 88% yn meddwl y byddai'r groesfan sebra arfaethedig ger neuadd y dref yn gwella diogelwch.
Roedd 5% yn meddwl y byddai'n llai diogel.

**C5. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill, ysgrifennwch nhw isod.**

Darparodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau neu sylwadau ac mae'r categorïau ymateb a nifer yr ymatebwyr a soniodd am y themâu wedi eu rhestru isod.

| Y Categorïau Ymateb | Nifer yr ymatebwyr a soniodd am y themâu hyn |
|---|---|
| Mwy o groesfannau a reolir a rhai heb reolaeth goleuadau yn enwedig ar gyfer yr henoed a'r anabl | 17 |
| Pryderon ynghylch cynllun cyffordd Jehu Road / Brook Street | 14 |
| Dychwelyd y system i'r hyn a fu cyn i'r system unffordd gael ei gosod | 11 |
| Gwella'r arwyddion | 11 |
| Anhawster i fynd i Brook Street o gyffyrdd oherwydd ceir sydd wedi eu parcio, gweledd, etc | 10 |
| Problemau parcio yn Brook Street, dileu rhai lleoedd parcio yn Brook Street, diwygio'r cyfyngiadau ar barcio yn Brook Street ar gyfer traffig dwyffordd | 9 |
| Gosod croesfan i gerddwyr wrth gyffordd Church Street / Mill Lane | 8 |
| Gosod croesfan pelican yn hytrach na chroesfan sebra ar Broad Street | 6 |
| Ymgorffori lôn i feiciau / Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer beiciau | 5 |
| Byddai newid Broad Street i fod yn stryd un-lôn yn achosi problemau o ran tagfeydd | 4 |
| Tagfeydd yn debygol ar Brook Street gyda thraffig dwyffordd | 4 |
| Pedestreiddio neu gau Church Street | 4 |
| Adeiladu ffordd osgoi'r dref | 4 |
| Pryderon ynghylch goryrru | 4 |
| Anawsterau wrth ymadael â'r Ficerdy | 3 |
| Sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hysbysu am newidiadau | 3 |
| Dim angen croesfan sebra ar Broad Street | 3 |
| Symud croesfan Broad Street yn nes at Swyddfa'r Post | 3 |
| Bydd problemau parcio yn cael eu creu yn Broad Street | 3 |
| Mae angen croesfan ar Broad Street | 3 |
| Gwella'r strydlun / y dewis o ddeunyddiau | 3 |
| Gwneud Jehu Road yn ddwyffordd | 2 |

| | |
|---|---|
| Anawsterau wrth groesi Jehu Road | 2 |
| Cynnydd yn y traffig / ciwio ar Red Bank | 2 |
| Problemau tagfeydd cyffredinol â'r cynigion | 2 |
| Gwneud Jehu Road yn un lôn | 2 |
| Estyn un lôn Broad Street i High Street | 2 |
| Gosod croesfan i gerddwyr ar Jehu Road | 2 |
| Lleihau'r lleoedd parcio ar Broad Street | 2 |
| Dileu'r lle parcio ar Jehu Road y tu allan i Sainsbury's | 2 |
| Pedestreiddio High Street / Broad Street | 1 |
| Tagfeydd ar Broad Street gydag un lôn | 1 |
| Pedestreiddio canol y dref | 1 |
| Gwneud Broad Street yn ddwyffordd | 1 |
| Gosod terfyn pwysau ar Broad Street ac eithrio ar gyfer cyflenwadau, etc | 1 |
| Cael gwared ar y goleuadau wrth y Cross a rhoi cylchfan yn eu lle | 1 |
| Newid amseriadau'r signalau traffig wrth y Cross | 1 |
| Hawl dramwy o Westwood i ymuno â'r system unffordd | 1 |
| Gadael y system unffordd fel ag y mae | 1 |
| Ildio / hawl dramwy i fynd i fyny Church Bank | 1 |
| Mynediad anos i Fron-y-Buckley | 1 |
| Angen arwyddion effeithiol ar gyfer croesfan newydd yn Broad Street | 1 |
| Mae angen newid amseriadau goleuadau'r groesfan wrth y Llyfrgell | 1 |
| Y grŵp mynediad – Mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â phob croesfan heb reolaeth goleuadau. Mae gan bobl ag anableddau broblemau wrth groesi yno. Hoffem awgrymu cael unrhyw fath o reolaeth wrth groesfannau yn hytrach na dim rheolaeth o gwbl. | 1 |
| Gosod llwyfan ar gyfer croesfan Broad Street | 1 |
| Materion cydgyfeirio wrth gyffordd Mill Lane | 1 |
| Gosod sgwâr melyn wrth gyffordd Morrison's | 1 |
| Gwella croesfan sebra tafarn Westwood | 1 |
| Cael gwared ar y cwrbinau sy'n cyfyngu ar gael mynd i New Street neu ddod allan ohoni | 1 |
| Newid y fân gylchfan ar Red Bank i fod yn gyffordd ildio o Brookfield Road | 1 |
| Gosod mesurau gostegu traffig ar Broad Street | 1 |
| Lleihau radiysau cornel a chodi arwynebedd y palmant o Red Bank i Church Bank i arafu'r traffig | 1 |

## Ymateb Cyngor Tref y Trallwng

Cafwyd yr ymateb canlynol i'r ymgynghoriad oddi wrth Gyngor Tref y Trallwng ar 26 Medi:-

## Cofnod rhif 8: Adolygiad o'r System Unffordd

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am y newidiadau arfaethedig i'r system unffordd yn y Trallwng.

Ystyriodd y Pwyllgor y planiau a chynlluniau manwl y cyffyrdd (trefnwyd bod planiau ar raddfa fawr ar gael yn y cyfarfod).

Nododd y Pwyllgor ganlyniadau canlynol yr ymgynghoriad cyhoeddus o Gynllun Tref a Chymuned 2017-2022:

| Pennawd | O blaid | Yn erbyn | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Croesfan wrth Neuadd y Dref | 65% | 21% | 14% |
| Newidiadau i'r system i wneud Brook Street/Union Street yn strydoedd traffig dwyffordd | 58% | 29% | 13% |
| Lôn sengl yn Broad Street | 49% | 37% | 14% |

Mae'r cynllun arfaethedig yn unol â pholisi Cynllun Tref a Chymuned 2017-2022.

Hysbyswyd y Cyngor am sylwadau'r diwrnod agored a'r fforwm busnes a oedd yn gyffredinol yn cefnogi'r newidiadau.

Ystyriodd y Cyngor y cynigion am newidiadau i'r system unffordd yn y Trallwng.

**PENDERFYNODD** y Cyngor gefnogi'r newidiadau a gynigiwyd i System Ffordd Unffordd y Trallwng.

Y bleidlais oedd: 13 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal.

Mae Clerc y Dref i hysbysu Llywodraeth Cymru fod y Cyngor yn dymuno cwblhau adolygiad gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys 3 mis ar ôl cyflwyno'r newidiadau er mwyn ystyried:

a) Sut y mae'r trefniadau newydd yn gweithio a beth yw eu heffeithiau ar ardaloedd eraill yn y dref gan gynnwys Red Bank.
b) Cyflwyno llinellau melyn i ganiatáu llinellau gweld gwell o Ddôl y Felin.

**Ymateb Fforwm Busnes y Trallwng**

Cafwyd yr ymateb canlynol i'r ymgynghoriad oddi wrth Fforwm Busnes y Trallwng.

**FFORWM BUSNES – TACHWEDD 2018**
**ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD O'R SYSTEM UNFFORDD**

| Rhif | Maes trafod | Safbwynt y fforwm |
|---|---|---|
| 1 | **Trosolwg** | Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cynigion cyffredinol ac yn awyddus i weld newidiadau o'r fath cyn gynted ag y bo modd. |
| 2 | **Lôn sengl i draffig yn Broad Street** | Cefnogaeth i'r opsiwn lôn sengl.<br>Mae parcio yn y brif stryd yn bwysig i fasnachwyr ac i'r rhai sy'n ansicr ar eu traed neu'n anabl. |
| 3 | **Croesfannau Broad Street** | Croesawyd y groesfan sebra yng nghyffiniau Neuadd y Dref. Dylai honno fod yn ei lle ar ôl i fater y traffig yn Brook Street gael ei ddatrys. Ar hyn o bryd y mae gormod o draffig i'w chael i weithio. |
| 4 | **Cyffordd Jehu Road â High Street** | Derbyniwyd bod y drefn bresennol a'r cynlluniau i ddod â'r cyrbiau allan yn ffordd dda ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cyffordd Jehu Road â Brook Street** | Ystyriwyd yr anhawster o droi allan pan fo mwy o draffig. Er hynny, gyda'r ddwy lôn yn arwain i Brook Street, ni chredwyd bod hyn yn broblem fawr. |
| **6** | **Brook Street** | Codwyd y mater o droi allan o Fron y Buckley a Woodside. Teimlwyd y byddai'r preswylwyr fan hyn yn ei chael hi'n anos i ddod allan i Brook Street. Ni chynigiwyd unrhyw ddatrysiadau. |
| **7** | **Cyffordd Church Bank/Red Bank** | Datganwyd pryder ynghylch y gyffordd â Red Bank, yn enwedig gyda lorïau. Awgrymwyd y dylid gosod terfyn pwysau ar y ffordd rhwng Guilsfield Road a Brookfield Road. |
| **8** | **Arwyddion** | Bydd arwyddion yn bwysig iawn a rhaid eu hystyried yn ofalus. Os yw'r arwyddion yn anghywir mewn unrhyw ffordd, byddai twristiaid yn mynd ar goll ac ni fyddai mwy o gyhoeddusrwydd gwael am y system unffordd yn fuddiol. |
| **9** | **Dôl y Felin** | Croesawyd yr estyniad i'r llinellau melyn i roi llinellau gweld gwell i Ddôl y Felin. |
| **10** | **Parcio** | Dylai unrhyw golled o leoedd parcio gael ei gwrthwynebu neu ei lleihau i'r nesaf peth i ddim. |
| **11** | **Amseru** | Croesawyd y ffaith y byddai'r cynllun ar waith cyn Pasg 2019. |

**Ymateb y Gwasanaethau Brys**

Ymgynghorwyd â'r gwasanaethau brys hefyd ond ni chafwyd unrhyw ymatebion hyd yn hyn.

## 4. Y camau nesaf

O ystyried yr ymateb cadarnhaol i'r cynigion, argymhellir y dylid ymgymryd â dyluniad manwl o'r cynllun gan gynnwys Gorchmynion Cyfyngiadau Traffig Parhaol ac Archwiliadau Diogelwch ar y Ffyrdd, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl yr angen.

Cyflwynir canlyniadau'r ymgynghoriad i'r Gweinidog i gael penderfyniad a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion.

**Atodiad A: Y ddogfen ymgynghori cyhoeddus a'r holiadur**

## Cyflwyniad


Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru wrthi'n archwilio adolygiadau i system gylchu unffordd yng nghanol tref y Trallwng, yn dilyn pryderon a godwyd gan fasnachwyr a thrigolion ers sefydlu'r system gylchu yn 2011.

Yr adolygiadau i'r rhwydwaith presennol sy'n cael eu hystyried yw:

- Y posibilrwydd o gulhau Broad Street i un lôn o gyffordd 'The Cross' i'r 'High Street' y tu allan i neuadd y dref.
- Gosod croesfan sebra ar Broad Street ger neuadd y dref.
- Gwelliannau fydd yn gwneud Brook Street yn ffordd ddwy lôn rhwng Church Street a Jehu Road, a fyddai'n newid arwyddion y A458 ger cylchfan Sarn-y-Bryn Caled a chyffordd y Flash.

Mae'r ymgynghoriad yma'n ceisio'ch barn chi ar yr uchod.

## Cynllun y Lleoliad




© Crown Copyright a hawliau'r gronfa ddata 2018 Yr Arolwg Ordnans 100025371

## Cefndir

Un o'r prif gysylltiadau o'r dwyrain i'r gorllewin yng Nghymru yw cefnffordd yr A458 ac mae'n pasio heibio i ganol y Trallwng, tref marchnad mewn ardal wledig o Bowys. Cyflwynwyd system gylchu unffordd yn 2011 a arweiniodd at draffig yr A458 yn teithio ar hyd Broad Street tua'r gorllewin, sef y brif stryd siopa, a B4381 Brook Street i gyfeiriad y dwyrain.

Mae tair cyffordd sy'n arwain i'r Trallwng o ffordd osgoi'r A483, sef: cylchfan Sarn-y-Bryn Caled ar ben y ffordd osgoi i'r de o'r Trallwng, cylchfan tua hanner ffordd ar hyd y ffordd osgoi ger yr Hen Orsaf yn y Trallwng, a chyffordd 'T' a adwaenir yn lleol fel cyffordd y 'Flash' ar ochr ogleddol y Trallwng. Mae gan bob un o'r tair cyffordd arwyddion priffordd ar gyfer yr A458. Bydd traffig yr A458 ger cylchfan Sarn-y-Bryn-Caled a chyffordd y 'Flash' yn defnyddio strydoedd preswyl yn bennaf, ac o'r Hen Orsaf, bydd traffig yr A458 yn defnyddio strydoedd masnachol/manwerthu'n bennaf.

Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch cerddwyr ar hyd Broad Street, yn ogystal ag ymddygiad amhriodol gan yrwyr trwy brif ardal siopa'r dref, er enghraifft gyrru'n rhy gyflym, goddiweddyd ar yr ochr anghywir yn ogystal â pharcio dwbl anghyfreithlon sy'n tagu'r lonydd traffig.

## Datblygiad

Mae Cyngor Sir Powys ar ran Llywodraeth Cymru wedi archwilio adolygiadau posibl o'r cynllun parcio a'r lled ar wahanol rannau o Broad Street fel rhan o adolygiad parcio a gynhaliwyd yn 2017. Roedd y gwaith hwn yn ychwanegu at waith blaenorol a wnaed gan Gyngor Sir Powys, gan gynnwys adolygiad o'r system unffordd er mwyn ymchwilio i'r amrywiol bryderon a godwyd gan fasnachwyr a phreswylwyr ynghylch y system gylchu, ac adolygiad o ddefnydd cerddwyr o'r groesfan heb reolaeth goleuadau ar Broad Street.

Argymhellodd yr adroddiad ar yr adolygiad parcio y dylai Broad Street cael ei leihau i lôn sengl trwy ddefnyddio marciau ffordd i ddarparu diwyg culach ar gerbytffordd o'r gyffordd â goleuadau wrth y 'Cross' i fyny i neuadd y dref. Yn ogystal â hyn, byddai'r rhan o'r ffordd lle nad oes lle ar hyn o bryd i barcio ar y stryd, ger neuadd y dref, yn cael ei chulhau'n ffisegol i 4.5m trwy ledu'r troetffyrdd/ardaloedd palmantog cyfagos, gan ganiatáu lle i sefydlu cyfleuster croesi dan reolaeth Sebra i ddisodli'r groesfan bresennol heb reolaeth goleuadau.

Fel rhan o'r asesiad o'r system unffordd, cafwyd cynnig y gallai pen dwyreiniol Brook Street ddychwelyd i lôn ddwyffordd. I wneud hyn, byddai angen diddymu'r troad i'r dde sydd ar hyn o bryd o Union Street i Church Street, fel bod y teithwyr sy'n mynd tuag at y gyffordd â'r goleuadau, sef y Cross, yn gorfod mynd ar hyd y system unffordd heibio Church Bank a Mill Lane.

## Cynigion

Dangosir y cynllun presennol a’r cynllun arfaethedig ar y cynlluniau maint A3 sydd wedi’u cynnwys gyda’r ddogfen hon.

Ffigur 1 – Cynllun Presennol y System Unffordd.

Mae Ffigur 1 yn dangos cynllun presennol y system unffordd yng nghanol y dref.

Ffigur 2 – Trosolwg o'r Adolygiadau i Ganol y Dref.

Mae tair prif elfen i’r cynnig, sef:

- Caniatáu llif traffig dwyffordd ar ran o Brook Street,
- culhau Broad Street i lôn sengl,
- gosod croesfan Sebra ar Broad Street wrth neuadd y dref.

Mae’r rhain wedi’u hamlygu ar Ffigur 2 i roi trosolwg o bob rhan a’u lleoliad o fewn y cynnig.

Ffigur 3 – Cyffordd Brook Street / Jehu Road, adolygu’r Ynys Draffig.

Fel rhan o’r cynnig ar gyfer llif traffig dwyffordd ar Brook Street, mae angen newid yr ynys traffig bresennol ar gyffordd Brook Street/Jehu Road. Mae Ffigur 3 yn dangos y newidiadau arfaethedig i’r ynys a’r marciau ffordd ger y gyffordd.

Ffigur 4 – Cyffordd Union Street / Church Street, Ailfodelu lonydd traffig.

Fel rhan o’r cynnig am lif traffig dwy ffordd ar Brook Street, mae’n rhaid diddymu’r lôn sy’n troi i’r dde o Union Street i Church Street. Mae diddymu’r lôn yma’n caniatáu i draffig o Mill Lane i droi i mewn i Union Street/Brook Street os ydynt yn teithio tua’r gorllewin.

Bydd hyn yn arwain at deithio ychwanegol gan y bydd yn rhaid i yrwyr sy’n dymuno defnyddio Church Street o Brook Street/Union Street fynd o amgylch system gylchu Church Bank ac yna Mill Lane cyn troi i’r chwith i fyny Church Street. Mae Ffigur 4 yn dangos y newidiadau arfaethedig i gyffordd Union Street/Church Street.

Ffigur 5 – Broad Street, Croesfan Sebra gyda Lôn Sengl i Draffig.

Er mwyn mynd i’r afael â phryderon masnachwyr a trigolion, bydd y Broad Street yn cael ei chulhau yn lôn sengl i draffig. Bydd lled y ffordd yn cael ei chulhau’n weledol i 3.7m o led yn gyfagos i’r mannau parcio ar y stryd, trwy ddefnyddio marciau ffordd. Ar yr un pryd, bydd yr adran yn gyfagos i neuadd y dref yn cael ei chulhau’n ffisegol i 4.5m trwy ledu’r troetffyrdd/ardaloedd palmantog ar y ddwy ochr. Mae lledu’r droetffordd/palmant yn gwella’r gweledεdd heibio i gerbydau sydd wedi’u parcio a bydd yn caniatáu gosod cyfleusterau croesi dan reolaeth Sebra ger neuadd y dref. Mae Ffigur 5 yn dangos y newidiadau arfaethedig i’r Broad Street.

Ffigur 6 – High Street / Jehu Road, Lledu’r droetffordd.

Cynhaliwyd Archwiliad Diogelwch ar yr ynysoedd lloches i gerddwyr ar gyffordd High Street/Jehu Road fel rhan o’r gwaith gwella. Fel rhan o’r archwiliad, mynegodd yr archwilwyr bryderon ynghylch parcio anghyfreithlon ac anystyriol o fewn yr ardaloedd â llinellau ger yr ynysoedd yma. Er mwyn mynd i’r afael â’r pryderon hyn, mae’r cynnig yn

cynnwys lledu'r troetffyrdd dros yr ardaloedd sydd â llinellau ar hyn o bryd, i leihau lled y ffordd sydd ar gael yn ffisegol. Mae Ffigur 6 yn dangos y newidiadau arfaethedig.

# Ffurflen ymateb - holiadur

Diolch yn fawr i chi am roi o'ch amser i gwblhau'r holiadur canlynol. Mae eich barn yn bwysig i ni.

A wnewch chi adolygu'r wybodaeth am y cynnig ynghylch yr adolygiadau i'r system unffordd yng nghanol tref y Trallwng, a rhoi gwybod i ni beth yw eich sylwadau erbyn **3 Rhagfyr 2018**.

Gallwch ddarllen y wybodaeth am y cynigion naill ai yn y sesiynau galw heibio yn Neuadd y Dref ar 14 Medi a 30 Hydref 2018 neu ar y wefan https://beta.llyw.cymru/system-unffordd-yr-a458-canol-tref-y-trallwng. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y cynigion, bydd tîm y prosiect yn y sesiynau galw heibio yn falch o'ch helpu.

Gallwch ddychwelyd yr holiadur yn yr amlen barod i'r cyfeiriad RHADBOST isod, neu ei gyflwyno i aelod o dîm y prosiect yn y sesiwn taro heibio, neu ei anfon trwy'r e-bost i **welshpooltowncentre@powys.gov.uk**

**Ymgynghoriad ar System Unffordd y Trallwng**
RHADBOST
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Neu, gallwch lenwi holiadur ar-lein sydd i'w gael o'r cyfeiriad gwefan uchod.

# A458 Canol Tref y Trallwng – System Unffordd System

**Ffurflen ymateb - holiadur**

| | |
|---|---|
| Enw a/neu Sefydliad | |
| Cyfeiriad | |

**Cyhoeddi ymatebion**

Os y byddai'n well gennych pe na byddai eich enw a'ch cyfeiriad yn cael ei gyhoeddi, ticiwch yma ☐

**1) – Sut fyddwch chi'n defnyddio'r system unffordd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi).**

Preswylydd Lleol ☐ Perchennog Busnes Lleol ☐

Diddordeb arall - nodwch beth ____________________

**2) – Pa ddull o deithio fyddwch chi'n ei ddefnyddio pan fyddwch yn teithio ar y system unffordd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi).**

Cerdded ☐ Beic ☐

Beic Modur ☐ Gyrrwr ☐

Arall, nodwch beth ____________________

**3) – Ydych chi'n teimlo bod yna broblemau diogelwch gyda'r system unffordd?**

- Y system unffordd bresennol ar Brook Street — Ydw ☐ Nac ydw ☐
- Y ddwy lôn draffig bresennol ar y Broad Street — Ydw ☐ Nac ydw ☐
- Y cyfleusterau croesi presennol ar y Broad Street — Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydw', rhestrwch yn y blwch isod unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â diogelwch y sefyllfa bresennol.

# A458 Canol Tref y Trallwng – System Unffordd System

**Ffurflen ymateb - holiadur**

**4) – Os gwnaethoch chi ateb 'ydw' i gwestiwn 3 – sut yn eich barn chi fydd y cynnig yn effeithio ar y pryderon yma? Dewiswch un rhif ar gyfer pob rhan o'r cynnig isod.**


a) System ddwy lôn arfaethedig ar Brook Street.
b) Culhau arfaethedig i greu lôn sengl ar Broad Street.
c) Croesfan Sebra arfaethedig ger neuadd y dref.

| | a) | b) | c) |
|---|---|---|---|
| 1 – Gwella diogelwch – dileu'r pryderon diogelwch. | | | |
| 2 – Ychydig bach o welliant i'r diogelwch – dileu'r pryderon diogelwch yn rhannol. | | | |
| 3 – Dim newid – mae'r pryderon diogelwch yr un fath. | | | |
| 4 – Ychydig yn llai diogel – pryderon diogelwch ychydig yn waeth. | | | |
| 5 – Llai diogel – pryderon diogelwch yn waeth, neu bryderon ychwanegol. | | | |

Esboniwch fwy am eich rhesymau yn y blwch isod.

**5) – Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill, ysgrifennwch nhw isod.**

Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur.




This drawing should not be scaled and any dimensions verified on site.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated

CWIC is the Central Wales Infrastucture Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.
This drawing is the property of CWIC Engineering Design Services and is issued on the condition that it is not copied, reproduced, retained or disclosed to any unauthorised person, either wholly or in part without the consent in writing of CWIC Engineering Design Services.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans
100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey
100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)

## Notes

Key

One-way Traffic Flow

Two-way Traffic Flow

| Rev | Date | Description | By | Chkd |
|---|---|---|---|---|

Amendments

**Engineering Design Services**

CSCC•CWIC

EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Powys

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR

Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System


Drawing Title
Existing Layout of One-Way System

| By CRG | Checked SK | Scale at A3 |
|---|---|---|
| Date August 2018 | | Not to Scale |

| Project Number | Drawing Number | Revision |
|---|---|---|
| 280401 | Figure 1 | |

ACS REGISTRARS Quality Assurance ISO 9001 UKAS
ACS REGISTRARS Health & Safety OHSAS 18001 UKAS
Drawing Filename :- 280401_Figure 1-2_A1_A3-170918.dwg
Last saved :- 17/09/2018

Drawing Path:- X:\CONSULT\PROJECTS\2800-99\2804 A458 Welshpool TC Revision to 1way system\11 - Drawings\02-D-Dgn 2018




This drawing should not be scaled and any dimensions verified on site.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated

CWIC is the Central Wales Infrastucture Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.

100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey
100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)

## Notes

Direction signs on one-way system to be amended as necessary to show revised route through town.

A Brook Street / Jehu Road junction.
Island revised to allow two-way traffic flow on Brook Street.
Refer to drawing Figure 3 for details.

B Union Street / Church Street Junction.
Junction revised to allow two-way traffic flow on Brook Street. Right turn from Union Street into Church Street removed, all eastbound traffic on Brook Street/Union Street to turn left onto Church Bank.
Refer to drawing Figure 4 for details.

C Broad Street. Parking section.
Road reduced to single traffic lane 3.7m wide with road markings, physical width unchanged.
Refer to drawing Figure 5 for details.

D Broad Street by Town Hall.
Road physically narrowed to single traffic lane 4.5m wide, Zebra crossing facility provided at east end of narrowing.
Refer to drawing Figure 5 for details.

E High Street / Jehu Road Junction
Footway built out over current hatched area to prevent illegal & inconsiderate parking adjacent to traffic islands.
Refer to drawing Figure 6 for details.

Key

One-way Traffic Flow

Two-way Traffic Flow

| Rev | Date | Description | By | Chkd |
|---|---|---|---|---|

Amendments

**Engineering Design Services**

EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR

CSCC•CWIC

Powys


Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System

Drawing Title
Overview of Town Centre Revisions

| By | CRG | Checked | SK | Scale at A3 | Not to Scale |
|---|---|---|---|---|---|
| Date | July 2018 | | | | |

| Project Number | Drawing Number | Revision |
|---|---|---|
| 280401 | Figure 2 | |

Drawing Filename :- 280401_Figure 1-2_A1_A3-170918.dwg




## Engineering Design Services


EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: County Hall, Market Street, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0AT

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR


CSCC•CWIC


CWIC is the Central Wales Infrastucture Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.
This drawing is the property of CWIC Engineering Design Services and is issued on the condition that it is not copied, reproduced, retained or disclosed to any unauthorised person, either wholly or in part without the consent in writing of CWIC Engineering Design Services.


| Amendments | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rev | Date | Description | By | Chkd |
| | | | | |

Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System

Drawing Title
Brook Street / Jehu Road Junction
Traffic Island Revised

| By | Checked | Scale at A3 |
|---|---|---|
| CRG | SK | 1:250 |

Date: July 2018


This drawing should not be scaled.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated

| Project Number | Drawing Number | Revision |
|---|---|---|
| 280401 | Figure 3 | |


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)


ACS Registrars Quality Assurance ISO 9001 · ACS Registrars Health & Safety OHSAS 18001

Drawing Filename : - 280401_Figure 3-4-6_A1-A3-170918.dwg
Last saved : - 17/09/2018




## Engineering Design Services


EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: County Hall, Market Street, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0AT

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR


CSCC•CWIC


CWIC is the Central Wales Infrastucture Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.
This drawing is the property of CWIC Engineering Design Services and is issued on the condition that it is not copied, reproduced, retained or disclosed to any unauthorised person, either wholly or in part without the consent in writing of CWIC Engineering Design Services.


Amendments

| Rev | Date | Description | By | Chkd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System

Drawing Title
Union Street / Church Street Junction
Traffic Lanes Remodelled

By: CRG
Checked: SK
Date: July 2018
Scale at A3: 1:250
This drawing should not be scaled.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated


Project Number: 280401
Drawing Number: Figure 4
Revision:


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)


ISO 9001 OHSAS 18001

Drawing Filename : - 280401_Figure 3-4-6_A1-A3-170918.dwg
Last saved : - 17/09/2018




**Engineering Design Services**


EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: County Hall, Market Street, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0AT

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR


CSCC•CWIC

Powys


CWIC is the Central Wales Infrastructure Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.
This drawing is the property of CWIC Engineering Design Services and is issued on the condition that it is not copied, reproduced, retained or disclosed to any unauthorised person, either wholly or in part without the consent in writing of CWIC Engineering Design Services.


| Amendments | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rev | Date | Description | By | Chkd |
| | | | | |

Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System

Drawing Title
Broad Street
Controlled Zebra Crossing with Single Traffic Lane

| By | Checked | Scale at A3 |
|---|---|---|
| CRG | SK | 1:500 |

Date: August 2018

This drawing should not be scaled.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated

| Project Number | Drawing Number | Revision |
|---|---|---|
| 280401 | Figure 5 | |


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)


ISO 9001 OHSAS 18001

Drawing Filename : - 280401_Figure 5-170918.dwg
Last saved : - 17/09/2018




## Engineering Design Services


EDS West Manager : Steve Hallows CEng MICE
01545 572513 hpw@ceredigion.gov.uk
West: County Hall, Market Street, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0AT

EDS East Manager : Gareth Price CEng CEnv MICE
0845 607 6060 tls.helpdesk@powys.gov.uk
North: Kirkhamsfield Depot, Pool Road, Newtown, Powys, SY16 3AF
Mid: County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG
South: Neuadd Brycheiniog, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HR


CSCC•CWIC


CWIC is the Central Wales Infrastucture Collaboration project between Powys County Council and Ceredigion County Council and all copyrights are vested in each respective Authority.
This drawing is the property of CWIC Engineering Design Services and is issued on the condition that it is not copied, reproduced, retained or disclosed to any unauthorised person, either wholly or in part without the consent in writing of CWIC Engineering Design Services.


Amendments

| Rev | Date | Description | By | Chkd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Project
A458 Shrewsbury to Mallwyd Trunk Road
Welshpool Town Centre - One-Way System

Drawing Title
High Street / Jehu Road Junction
Footway Widening

| By | Checked | Scale at A3 |
|---|---|---|
| CRG | SK | 1:250 |

Date: August 2018

This drawing should not be scaled.
All dimensions are in millimetres unless otherwise stated

| Project Number | Drawing Number | Revision |
|---|---|---|
| 280401 | Figure 6 | |


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100024419 (Cyngor Sir Ceredigion) & 100025371 (Cyngor Sir Powys)
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100024419 (Ceredigion County Council) & 100025371 (Powys County Council)


ISO 9001 OHSAS 18001

Drawing Filename : - 280401_Figure 3-4-6_A1-A3-170918.dwg
Last saved : - 17/09/2018